Hydref 2022

Newyddion y Prosiect

Y prosiect i newid y ceblau tanddaear o Ddinorwig i Bentir

Newyddion am y gwaith

Victoria Haworth
Uwch-reolwr y Prosiect,
National Grid

Ym mis Mehefin, anfonwyd ein cylchlythyr diwethaf am y prosiect atoch, yn sôn am y gwaith o newid y ceblau tanddaear sy'n rhedeg rhwng Gorsaf Bŵer Dinorwig a'r is-orsaf ym Mhentir. Diolch eto i bawb a ddaeth i gyfarfod â ni yn ein cymhorthfa agored yn yr haf.

Ers hynny, rydym wedi dal ati i osod dwythellau ceblau yn yr ardal. Hoffem ddiolch i bawb am fod mor amyneddgar. Yn y cylchlythyr hwn mi gewch y wybodaeth ddiweddaraf am gamau nesaf ein gwaith a'r pethau eraill rydym yn eu gwneud yn y gymuned.

Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn o fudd i chi. Os oes gennych ryw gwestiwn am ein gwaith, ewch i wefan y prosiect i weld yr amserlen ddiweddaraf. Neu gallwch gysylltu â ni neu ddod i'n cymhorthfa agored nesaf. Mae manylion y digwyddiad hwnnw ar y dudalen nesaf.

Victoria Haworth

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae ail grŵp o weithwyr wedi ailddechrau gweithio ar yr A4086 i greu ffosydd ar gyfer ein ceblau newydd, gan fod cyfnod prysur gwyliau'r haf wedi dod i ben. Bydd y gweithwyr hyn yn dal i symud i gyfeiriad y gylchfan newydd. Fodd bynnag, rydym yn osgoi'r gylchfan ei hun er mwyn peidio â chloddio yno.

Yn ogystal, mae ein timau'n dal i weithio ar yr A4244, gan fynd i gyfeiriad is-orsaf Pentir. Dim ond dau grŵp o weithwyr yr ydym yn eu defnyddio yn awr ar y ffordd hon, yn hytrach na thri, gan obeithio y bydd hyn yn tarfu llai ar bobl. Ar ôl cwblhau'r gwaith, byddwn yn rhoi wyneb newydd ar y rhannau o'r ffyrdd y byddwn wedi'u cloddio.

Byddwn yn dal i ddefnyddio goleuadau traffig dros dro ar y rhannau o'r ffyrdd lle byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau bod y gwaith mor ddiogel â phosibl.

Wrth gysylltu â chi o'r blaen, soniwyd y byddai angen cau pen uchaf Stryd Fawr Llanberis am tua phythefnos yng Ngwanwyn 2022. Oherwydd anawsterau gyda chyflwr y tir, bu'n rhaid gohirio hyn ac rydym yn rhagweld yn awr y bydd yn digwydd yn gynnar yn 2023. Bydd rhybuddion ymlaen llaw am y bwriad i gau'r gyffordd yn ymddangos wythnos cyn i'r gwaith ddechrau. Tra bydd y gyffordd wedi cau, caiff y traffig a cherddwyr eu cyfeirio ar hyd ffyrdd eraill a nodir yn glir pa ffordd i fynd.

Yn ogystal, bydd rhaid i ni gau'r B4366 ger is-orsaf Pentir yn gynnar y flwyddyn nesaf. Byddwn yn diweddaru gwefan y prosiect pan fydd y cynlluniau wedi'u cadarnhau.

Dechreuwyd gosod dwythellau ceblau o dan Afon y Bala, ger Amgueddfa Lechi Cymru, yr Haf yma hefyd. Rydym yn defnyddio techneg o'r enw Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) i fynd o dan yr afon gan amharu cyn lleied ag y bo modd ar yr amgylchedd. Rydym wedi rhoi'r gorau i'r gwaith hwn am y tro ond byddwn yn ailddechrau yn y Flwyddyn Newydd.

Nodir yr amserlen ddiweddaraf ar wefan y prosiect.

nationalgrid

Cymhorthfa agored mis Tachwedd

Rydym yn cynnal ein cymhorthfa agored nesaf yng Nghanolfan Gymunedol Llanberis ar 17 Tachwedd 2022. Bydd y gymhorthfa yn agored o 4pm tan 7pm. Yn y digwyddiad hwn, cewch gyfarfod â'n tîm a gofyn cwestiynau i ni wyneb yn wyneb am ein prosiect.

Er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfarfod ag aelod o'n tîm, gofynnwn i chi gofrestru ar gyfer amser penodol os hoffech ddod. Gallwch wneud hyn trwy ein ffonio ar 0330 1340066 neu anfon neges e-bost i nationalgrid@dinorwig.co.uk

Cefnogi cymunedau

Oherwydd natur ein gwaith, mae National Grid wrth galon ein cymunedau. Rydym yn cefnogi sefydliadau ac elusennau lleol trwy ddyfarnu grantiau cymunedol iddynt.

Rydym yn ariannu pob math o brosiectau sy'n cynnig budd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol mewn ardaloedd lle mae ein gwaith yn cael effaith ar bobl leol.

Rydym eisoes wedi cael ceisiadau ar gyfer y cynllun grantiau cymunedol. Yn eu plith, mae un gan Ysgol Bethel ac rydym yn falch iawn o ddweud y byddan nhw'n cael grant i brynu offer newydd.

Mae'r cynllun yn dal yn agored i bawb. Os hoffech wybod mwy, a dysgu am y broses ymgeisio a'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys, ewch i: www.nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme

Yn ogystal, rydym yn cydweithio â Chynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW) mewn her beirianneg gyffrous ar gyfer grŵp o fyfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf y chweched dosbarth yn Ysgol Friars. Mae hyn yn rhan o'n hymdrechion i annog disgyblion i ystyried gyrfa mewn STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Newydd ddechrau y mae'r prosiect a bydd yn parhau trwy gydol y flwyddyn ysgol.

Cysylltu â ni

Os hoffech wybod rhagor, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ffonio ein rhif rhadffôn: **0330 1340066**

Anfon neges ebost i: **nationalgrid@dinorwig.co.uk**

nationalgrid.com/uk/electricity-transmission/network-and-infrastructure/dinorwig-pentir

Ailgylchwch os gwelwch yn dda